



SUT I... GREU GWESTY TRYCHFILOD

O ddarparu gwasanaethau fel peillio a rheoli plâu i ddadelfennu dail sydd wedi syrthio a phren marw i mewn i'r pridd, mae trychfilod a phryfed eraill yn rhan bwysig iawn o'r ecosystem.

Yn anffodus, mae'r creaduriaid bach rhyfeddol yma'n dirywio yn y DU. Un ffordd i ti wneud dy ardd di'n hafan i drychfilod, gwenyn a phryfed eraill yw drwy greu gwesty trychfilod.

BETH FYDD EI ANGEN

Deunyddiau

- Priciau neu frigau sych – perffaith i fuchod coch cwta aeafgysgu ynddyn nhw.
- Coesynnau gwag – fel hen ffyn bambŵ neu wellt papur newydd wedi'u rholio.
- Blociau o bren – mae tyllau wedi'u drilio mewn blociau o bren yn safleoedd nythu da i wenyn unigol (gofyn i oedolyn helpu pan fyddi di'n drilio'r tyllau).
- Dail sych – mae'r rhain yn debyg i lawr y goedwig.
- Cardfwrdd rhychog – rholio hwn yn silindr ar gyfer yr adain siderog.
- Gwellt a gwair – mae gwahanol bryfed yn gallu cuddio yn y rhain a dod o hyd i safleoedd gaeafgysgu diogel.
- Rhisgl rhydd – mae chwilod, nadroedd cantroed, pryfed cop a phryfed lludw i gyd yn cuddio o dan bren a rhisgl.

Offer

- Siswrn.
- Tâp sy'n dal dŵr neu linyng.
- Dril trydan (dewisol a gydag oedolyn i helpu).



Casglu pibellau a choesynnau gwag.



Mae tyllau'n llefydd gwych i guddio.



Defnyddio dail a rhisgl sych ar gyfer buched coch cota.



Casglu hen botiau, jariau a chynwysyddion.



AILDEFNYDDIO AC AILGYLCHU!

Mae posib defnyddio deunyddiau wedi'u hailgyrchu os oes gen ti rai hefyd, fel hen duniau diod, cwpanau papur, jariau gwydr a photeli llefrith plastig.



SUT I... GREU GWESTY TRYCHFILOD



CAM WRTH GAM

1. Rhaid i ti ddechrau gyda waliau dy westy trychfilod. Defnyddia'r deunyddiau i greu cynhwysydd, er enghraifft, hen bot planhigion, un pen carton llefrith plastig, jar wydr, hen gwpan goffi gardfwrdd neu dun.



2. Os wyt ti eisiau hongian dy westy, defnyddia llynyn garrd i'w glymu rownd y cynhwysydd neu greu tyllau i'r llynyn ffitio drwyddyn nhw cyn ei lenwi.



3. Os wyt ti'n gwneud gwesty trychfilod mawr ar y ddaear, defnyddia bren, palets neu ganghennau wedi syrthio i wneud dy gynhwysydd mawr. Gwna'n siŵr bod y gwesty'n gryf rhag iddo syrthio drosodd.



4. Rhaid i ti greu tu mewn clyd drwy lenwi dy gartref gyda gwahanol dddeunyddiau. Os oes angen, torra'r deunyddiau i ffitio. Gwthia'r deunyddiau i mewn yn dynn rhag iddyn nhw syrthio allan, gan wneud yn siŵr bod y pen gwag yn wynebu am allan.




Gall gwesty enfawr gynnwys llawer o gynefinoedd ar gyfer gwahanol rywogaethau.

BLE DDYLLID RHOI'R GWESTY TRYCHFILOD

Mae rhai pryfed yn hoffi llefydd oer a llaith, mae'n well gan eraill yr haul. Chwilia am lecyn sy'n cael rhywfaint o gysgod (dan goeden neu wrth ymyl gwrych, er enghraifft) lle bydd un rhan yn llygad yr haul.

Os wyt ti'n hongian dy westy, ni ddylai fod yn uwch nag 1m uwch ben y ddaear. Dylai'r fynedfa fod ar ei hochr rywfaint, fel bod dŵr glaw yn gallu llifo allan.



SEMBLE

Iceland Foods
Charitable
Foundation
For people, for better

Mae'r adnodd yma'n cael ei gyflwyno i chi gan Backyard Nature mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaethau Natur ac Outdoor People. Mae Backyard Nature yn ymgyrch sydd wedi'i datblygu gan Semble, yn cael ei hysbrydoli gan blant a'i gweithredu gan Sefydliad Elusenol Iceland Foods.

Cydnabyddiaeth am y lluniau: Annie Spratt, Jonelle Yankovich (Unsplash), Magne Flaten, Zlato Duric (Wikicommons).